**Hysbysiad o Ddechrau Gwrandawiadau Archwiliad**

**Cynllun Datblygu Lleol 2 Sir Benfro (2017-2033)**

**Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004, Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) 2005 (fel y'u diwygiwyd), (Rheoliad 23) Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) (Diwygio) 2015**

Ar 10 Hydref 2025, cyflwynodd Cyngor Sir Penfro Gynllun Datblygu Lleol 2 Sir Benfro 2017-2033 i Lywodraeth Cymru i'w archwilio yn unol ag adran 64(1) o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004. Os, caiff polisiau ac awgrymiadau LDP2 eu mabwysiadu, byddant yn disodli'r Cynllun Datblygu Lleol (2013-2021) ac yn sail i benderfyniadau ar gynllunio defnydd tir ar gyfer ardal Sir Benfro, ac eithrio'r Parc Cenedlaethol.

Gellir gweld amserlen o ddogfennau cyflwyno yma https://www.sir-benfro.gov.uk/adolygur-cynllun-datblygu-lleol/cyflwyno

Mae Gweinidogion Cymru wedi penodi Ian Stevens BA (Anrh) MCD MRTPI i gynnal archwiliad annibynnol o Gynllun Datblygu Lleol 2 Sir Benfro 2017-2033.

Dim ond y rhai a wnaeth sylwadau 'yn briodol' i geisio newid y Cynllun Datblygu Lleol Adneuo (h.y. yn unol â hysbysiadau cynharach), sydd â'r hawl i ymddangos gerbron yr arolygydd ac i leisio eu barn yn yr archwiliad (adran 64(6) o Ddeddf 2004), ynghyd â chynrychiolwyr ar y newidiadau â ffocws sy'n dymuno ymddangos yn yr archwiliad.

Drwy hyn, mae Cyngor Sir Penfro yn hysbysu y bydd y gwrandawiad archwilio'n cael ei gynnal fel a ganlyn:

**Dyddiadau ac amseroedd sesiynau'r gwrandawiad**

Wythnos 1: dydd Mawrth 10 Tachwedd, dydd Mercher 11 Tachwedd a dydd Iau 12 Tachwedd.

Wythnos 2: dydd Mawrth 17 Tachwedd, dydd Mercher 18 Tachwedd a dydd Iau 19 Tachwedd.

Wythnos 3: dydd Mawrth 1 Rhagfyr, dydd Mercher 2 Rhagfyr a dydd Iau 3 Rhagfyr.

Bydd sesiynau'r gwrandawiad yn dechrau am 10am ac fel arfer byddant yn cael eu cynnal rhwng 10am ac 1pm a 2pm a 5pm bob dydd.

**Lleoliad**

Cynhelir sesiynau'r gwrandawiad ar ffurf rithwir.

Mae sesiynau'r gwrandawiad yn ddigwyddiadau cyhoeddus a byddant ar gael i'r cyhoedd a phobl nad ydynt yn cymryd rhan i'w gwylio hefyd.

Gall unrhyw gyfranogwyr sesiwn gwrandawiad na allant ymuno o bell o'u cartref neu leoliad gwaith ddod i Neuadd y Sir i gymryd rhan.  Darperir seddi ac offer TG yn Neuadd y Sir i hwyluso hyn.  Gofynnir i unrhyw gyfranogwyr sesiwn gwrandawiad sy'n dymuno manteisio ar yr opsiwn hwn hysbysu'r Swyddog Rhaglen (gweler manylion cyswllt isod) erbyn 23 Hydref 2026 fan bellaf, fel y gellir rhoi'r trefniadau priodol ar waith.

Bydd y gwrandawiadau'n cael eu ffrydio ar y rhyngrwyd. Bydd dolen ar gael ar dudalen we archwilio Cynllun Datblygu Lleol y cyngor: https://www.sir-benfro.gov.uk/adolygur-cynllun-datblygu-lleol/archwilio

Dylid cyfeirio pob ymholiad sy'n ymwneud â'r archwiliad at y Swyddog Rhaglen annibynnol, Deborah Williamson.

**Cyfeiriad:** Swyddog Rhaglen o dan ofal Tîm y Cynlluniau Datblygu Lleol, Neuadd y Sir, Freeman's Way, Hwlffordd, Sir Benfro, SA61 1TP

**Cyfeiriad e-bost:** programmeofficer@pembrokeshire.gov.uk **Ffôn:** 01437 775545

Ceir rhagor o fanylion am yr archwiliad ar dudalen we archwiliad Cynllun Datblygu Lleol Cyngor Sir Penfro: https://www.sir-benfro.gov.uk/adolygur-cynllun-datblygu-lleol/archwilio

**Dyddiad yr hysbysiad:** 14 Medi 2026

**Cyfeiriad:** Tîm y Cynlluniau Datblygu Lleol, Neuadd y Sir, Freeman's Way, Hwlffordd, Sir Benfro, SA61 1TP

**Cyfeiriad e-bost:** ldp@pembrokeshire.gov.uk